**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Mehefin 2012**

# Ymateb y Pwyllgor Busnes i Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i roi Pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU

## Cefndir

1. Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLAC) adroddiad ar ei Ymchwiliad i Roi Pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU. Roedd nifer o argymhellion y Pwyllgor yn galw am ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

2. O dan Reol Sefydlog 33.2, rhaid i unrhyw gynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog gael eu cyflwyno a'u cynnig gan y Pwyllgor Busnes. Mae'r Pwyllgor Busnes yn falch o ymateb i argymhellion perthnasol sy'n adroddiad CLAC, ac i nodi ein bwriadau a'n dull o fwrw ymlaen â chynigion CLAC.

3. Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y mater hwn yn ei gyfarfodydd ar 12 a 19 Mehefin, ac roedd yn gallu ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn ei drafodaethau.

4. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i aelodau'r CLAC am gynnal yr ymchwiliad amserol hwn ac am lunio adroddiad a fydd yn werthfawr i lywio ystyriaethau yn y dyfodol, yn y Pwyllgor Busnes a thu hwnt, o'r materion ynghylch sut mae'r Cynulliad yn ymdrin â mathau amrywiol o ddeddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

## Ymateb y Pwyllgor

5. Ers inni symud i Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ym mis Mai 2011, gyda phwerau deddfwriaethol sylfaenol wedi'u datganoli i'r Cynulliad, mae wedi dod hyd yn oed yn fwy pwysig i'r Cynulliad allu rhoi ei gydsyniad pan fydd Senedd a Gweinidogion y DU yn deddfu mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Rydym o'r farn, felly, ei bod yn amser i edrych eto ar ein gweithdrefnau yn y maes hwn.

6. Rydym yn falch o allu ymateb yn gadarnhaol i bob un o argymhellion yr adroddiad sy'n gofyn am gael diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Mae angen trafod ymhellach sut yn union y caiff yr argymhellion hynny eu gweithredu, a hynny yn y Cynulliad ac yn rhynglywodraethol, a dyna'r rheswm dros dderbyn argymhellion CLAC 'mewn egwyddor' yn aml. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes yn ymrwymedig i fwrw ymlaen â'r newidiadau hynny sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein hamcan cyffredinol o sicrhau prosesau craffu cadarn yn y Cynulliad ar unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU sy'n berthnasol.

7. Barn y Pwyllgor Busnes yw mai rhan allweddol o wella'r broses graffu yw sefydlu gweithdrefn sy'n caniatáu i'r Llywodraeth rannu cymaint o wybodaeth â phosibl â'r Cynulliad yn gynnar yn y broses ynghylch darpariaethau perthnasol mewn Biliau, gan beidio ag effeithio ar y cyfyngiadau cyfrinachedd angenrheidiol o ran cyd-drafodaethau rhynglywodraethol. Dyma fydd ein hegwyddorion arweiniol wrth inni ystyried cynigion am newid yn ystod y misoedd i ddod.

8. Mae ymateb manwl y Pwyllgor i bob argymhelliad perthnasol fel a ganlyn.

**Argymhelliad 1 - Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Cynulliad ystyried penderfyniad ar ffurf datganiad sy'n nodi dealltwriaeth y Cynulliad o gonfensiwn Sewel a sut y mae'n berthnasol iddo.**

**Ymateb: Nodi**

9. Mae'r Pwyllgor Busnes yn nodi'r argymhelliad ac ymateb y Llywodraeth ac y byddai'n hapus i osod memorandwm gerbron y Cynulliad yn nodi ein dealltwriaeth o'r confensiwn fel y mae'n gymwys/fel y bydd yn gymwys yng Nghymru.

**Argymhelliad 5 - Rydym yn argymell y dylid dileu Rheol Sefydlog 30 a diwygio Rheol Sefydlog 29 fel bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth Senedd y DU ar unrhyw fater sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

10. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno y dylid dileu Rheol Sefydlog 30 a diwygio Rheol Sefydlog 29 fel bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth Senedd y DU ar unrhyw fater sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru.

11. Rydym yn cytuno y dylid sicrhau bod ein gweithdrefnau yn cyfateb i'r rhai sydd eisoes yn cael eu gweithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

12. Deallwn y bydd angen i Lywodraeth Cymru drafod â Llywodraeth y DU er mwyn diwygio Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 9 (DGN9). Bydd y Pwyllgor Busnes yn cadw hyn mewn cof wrth ystyried pryd y dylid gweithredu unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

**Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 29 fel bod pob Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (gan gynnwys y materion sydd wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 30 bellach), oni bai fod amgylchiadau eithriadol, yn cael ei gyfeirio at bwyllgor Cynulliad i graffu'n fanwl arno.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

13. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ag argymhelliad y CLAC mai'r drefn arferol ddylai fod cyfeirio Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, a bod angen cynnwys yr egwyddor hon yn y Rheolau Sefydlog.

14. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru y byddai'n fodlon â newid i'r Rheolau Sefydlog fel bod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael eu cyfeirio at bwyllgor Cynulliad fel arfer.

15. Rydym yn cytuno mai'r drefn arferol ddylai fod cyfeirio Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol at bwyllgor, ac felly bydd y Pwyllgor Busnes yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gytuno ar eiriad priodol ar gyfer Rheol Sefydlog ddiwygiedig a fydd yn rhoi'r egwyddor hon ar waith.

**Argymhelliad 7: Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 29 fel na all Llywodraeth Cymru gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol nes bod y Pwyllgor perthnasol wedi cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

16. Rydym yn nodi bod Rheol Sefydlog 29.8 presennol yn atal Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol rhag cael ei *drafod* cyn i bwyllgor gyflwyno adroddiad, pan fydd y Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Memorandwm at bwyllgor. Mae'r Llywodraeth wedi ymateb gan ddweud y byddai am gymhwyso unrhyw gyfyngiad o'r fath drwy nodi na fyddai'r Cynnig 'fel arfer' yn cael ei gyflwyno nes bod y pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad. Bydd angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried pa eiriad a fyddai'n rhoi'r diogelwch mwyaf priodol i sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle i graffu'n briodol ac yn amserol .

17. Rydym yn nodi bod y CLAC, yn ei adroddiad, yn ystyried bod Rheol Sefydlog 29.6 yn ei gwneud yn ofynnol ar hyn o bryd i'r Llywodraeth osod y Memorandwm a chyflwyno'r Cynnig ar yr un pryd. Rydym yn derbyn bod diffyg eglurder yn y Rheol Sefydlog hon, ac mae angen cywiro hynny fel ei bod yn glir nad dyna'r achos.

18. Gwnaeth y Pwyllgor Busnes hefyd ystyried y cynnig a wnaed gan y Llywodraeth yn ei hymateb ei hun, i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i gael gwared ar y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â phob Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodir.

19. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig hwn, ynghyd â'r argymhellion a wnaed gan CLAC.

**Argymhelliad 11: Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad:**

- **fel eu bod yn ei gwneud yn ofynnol bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU yn unig sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a**
- **fel y bydd y gweithdrefnau ar gyfer ystyried is-ddeddfwriaeth yn cael eu hymestyn yn unol â'r weithdrefn dros dro y cytunodd y Pwyllgor Busnes arni yn ddiweddar ar gyfer ystyried Gorchmynion y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

20. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i'r Cynulliad roi cydsyniad i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Byddwn yn edrych ar sut y gellir ehangu'r weithdrefn dros dro y cytunwyd arni i ystyried Gorchmynion y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus er mwyn cwmpasu is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n dod o dan gymhwysedd y Cynulliad neu sy'n effeithio arno.

21. Wrth wneud hynny, rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i adolygu'r broses dros dro o ran y ffordd y mae wedi gweithio hyd yma, ac rydym yn gwahodd barn CLAC mewn cysylltiad â hyn.

22. Rydym yn nodi ymateb y Llywodraeth y byddai angen cytundeb Llywodraeth y DU ar gyfer unrhyw broses o'r fath, a bydd angen iddi fod yn ddigon hyblyg i ystyried y gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth a'r amserlenni gwahanol yn y Senedd.